RHAN 2 – ERTHYGLAU'R CYFANSODDIAD

Erthygl 9 - Y Pwyllgor Safonau a Moeseg

9.1 **Pwyllgor Safonau a Moeseg**

Mae'r Cyngor wedi penodi Pwyllgor Safonau a Moeseg statudol a bydd yn parhau i wneud felly.

9.2 **Cynnwys**

Cydbwysedd Gwleidyddol

Nid oes rhaid i'r Pwyllgor Safonau a Moeseg gydymffurfio â'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol yn adran 15 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ac mae'r Cyngor wedi penderfynu y caiff y tri Chynghorydd a etholwyd yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor eu henwebu i sefyll ar y Pwyllgor.

(a) Aelodaeth

Bydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg yn cynnwys naw aelod. Bydd ei aelodaeth yn cynnwys:

(i) Pum aelod 'annibynnol', nad ydynt yn Gynghorydd neu gyflogai neu ŵr/gwraig cynghorydd neu gyflogai'r Awdurdod neu unrhyw awdurdod perthnasol arall fel y diffinni gan y Ddeddf, wedi'u penodi yn unol â'r weithdrefn a nodir yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001;

(ii) Tri Chynghorydd (na fydd yn cynnwys yr Arweinydd na mwy nag un aelod o'r Cabinet) o'r Awdurdod; a

(iii) Un aelod o Gyngor Cymuned sy'n gweithredu'n bennaf neu rannol yn ardal y Cyngor ('Aelod Pwyllgor Cymunedol').

(b) Cyfnod yn y swydd

(i) Caiff aelodau annibynnol eu penodi am gyfnod nad yw'n llai na phedair blynedd ac nad yw'n fwy na chwe blynedd. Bydd y Cyngor yn penderfynu ar y cyfnod hwn pan gânt eu penodi. Gallant gael eu hail-benodi am un term olynol pellach o hyd at pedair blynedd bellach yn unig.

(ii) Caiff aelodau o Gyngor Caerdydd sy'n aelodau o'r Pwyllgor Safonau a Moeseg gael eu penodi tan ddyddiad yr etholiad llywodraeth leol gyffredin nesaf ar ôl iddynt gael eu penodi. Byddant yn stopio bod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau a Moeseg os byddant yn stopio bod yn aelod o Gyngor Caerdydd. Gallant gael eu hail-benodi am un term olynol pellach yn unig.

(iii) Caiff yr Aelod Pwyllgor Cymunedol ei benodi tan ddyddiad yr etholiadau cyffredin nesaf ar gyfer y cyngor cymuned ar ôl iddo gael ei benodi. Bydd yn stopio bod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau a Moeseg os bydd yn stopio

bod yn aelod o gyngor cymuned yn ardal y Cyngor. Gall gael eu hail-benodi am un term olynol pellach yn unig.

(c) Cworwm

Bydd cyfarfod y Pwyllgor Safonau a Moeseg yn gworwm dim ond pan fo:

(i) o leiaf tri aelod yn bresennol; a

(ii) o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol yn aelodau annibynnol.

(d) Pleidleisio

Bydd hawl gan yr aelodau annibynnol ac aelodau pwyllgorau cymunedol hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd.

(e) Aelodau Pwyllgorau Cymunedol

Ni fydd aelod pwyllgor cymunedol yn cymryd rhan yng ngweithrediadau'r Pwyllgor Safonau a Moeseg neu unrhyw o'i is-bwyllgorau pan fo unrhyw fater sy'n ymwneud ag aelod o'i Gyngor Cymunedol yn cael ei ystyried.

(f) Cadeirio'r Pwyllgor

(i) Aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau a Moeseg yn unig sy'n gallu bod yn Gadeirydd.

(ii) Caiff y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eu hethol gan aelodau o'r Pwyllgor Safonau a Moeseg ar gyfer p'un o'r cyfnodau canlynol sy'n fyrraf o (dim llai na 4 blynedd a dim mwy na 5 blynedd, neu (b) nes y bydd cyfnod y person hwnnw fel aelod annibynnol o'r Pwyllgor yn dod i ben. Gall y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eu hail-benodi.

9.3 **Is-bwyllgor Cynghorau Cymunedol**

Bydd y Pwyllgor Safonau a Moeseg yn cynnwys is-bwyllgor i gyflawni'r swyddogaeth a nodir yn Erthygl 9.4(h) isod. Bydd yr is-bwyllgor yn cynnwys o leiaf dau aelod annibynnol ac un aelod pwyllgor cymunedol, oni bai bod y mater sydd gerbron yr is-bwyllgor yn berthnasol i Gyngor yr aelod pwyllgor cymunedol ne aelod o'r cyngor hwnnw. Yn yr achos hwn, bydd aelod arall o'r Pwyllgor Safonau a Moeseg yn cymryd lle'r aeloda pwyllgor cymunedol.

9.4 **Rôl a Swyddogaeth**

Bydd gan y Pwyllgor Safnau a Moeseg yn nodi'r a'r swyddogaethau yn ei gylch gorchwyl cymeradwy yn Atodiad 2 of Ran 3 y Cyfansoddiad hwn.